Canllaw Cymdeithas Ecolegol Prydain

# Dylanwadu ar bolisïau amgylcheddol yng Nghymru



BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Mae blaenoriaethau Cymdeithas Ecolegol Prydain yng Nghymru ar gyfer 2024-2025 yn canolbwyntio ar bolisïau a deddfwriaeth sydd â'r nod o amddiffyn a gwella bioamrywiaeth, newid defnydd tir, ansawdd dŵr a'r amgylchedd morol.

Mae polisïau amgylcheddol yn effeithio'n ddwys ar fioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'n hanfodol fod y polisi hwn wedi'i danategu gan dystiolaeth ecolegol gadarn.

Dyma y mae gwneuthurwyr polisi yn awyddus i'w gyflawni a dyma sut gallwch chi helpu.

# Cynnwys

**Y broses wleidyddol yng Nghymru** ..................... **3**

Pwerau datganoledig

Beth yw polisïau a deddfwriaeth?

Sut mae Bil yn dod yn Ddeddf?

**Pwy yw'r gweithredwyr allweddol?** .................. **5**

Llunio, datblygu neu ddiwygio polisïau

Cynghori, lobïo neu ddarparu tystiolaeth ar gyfer polisïau

**Sut gallwch chi ddylanwadu** ............................... **8**

Ymgynghoriadau

Cysylltiadau a chydweithio

**Deddfwriaeth allweddol** ...................................... **9**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**Polisïau allweddol** .............................................. **11**

Cynllun Gweithredu Adfer Natur (2015)

Coetiroedd i Gymru (2018)

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)

Cymru'r Dyfodol : Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

**Polisïau a Chymdeithas Ecolegol Prydain** .......**12**

Cover image: Snowdonia National Park
© Alasdair James

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

# Y Broses Wleidyddol yng Nghymru

## Pwerau Datganoledig

### Amserlen datganoli yng Nghymru

| 1997 | 1998 | 1999 | 2006 | 2011 | 2017 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Refferenda ar Ddatganoli yng Nghymru a'r Alban | Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i basio gan Senedd y DU | Ffurfio Cynulliad Cenedlaet hol Cymru (NAW) | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy fodel pwerau a roddwyd | Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ennill pwerau deddfwriaethol sylfaenol drwy refferendwm | Deddf Cymru 2017 drwy fodel cadw pwerau | Pasio Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod yn Senedd Cymru |

### Pwerau Datganoledig ac Wedi'u Cadw, a'r Confensiwn Sewel

Y materion datganoledig sydd fwyaf perthnasol i Gymdeithas Ecolegol Prydain yw'r amgylchedd, materion gwledig, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth. Mae'r amgylchedd yn faes polisi datganoledig fodd bynnag gallai'r sefyllfa fod yn un cymhleth yn sgil, er enghraifft, bod polisi ynni yn bŵer wedi'i gadw gan Senedd y DU.

Mae'r Senedd yn meddu ar gymhwysedd cyfreithiol dros faterion sydd at ei gilydd yn fwy perthnasol o ddydd i ddydd i bobl Cymru, fodd bynnag mae Senedd y DU hefyd yn meddu ar y pŵer i ddeddfu yn y meysydd hynny hefyd.

Ymhlith y materion sydd wedi'u cadw mae materion tramor, amddiffyn, ynni ac ystod o faterion eraill sydd wedi'u crybwyll yn Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ychydig o reolaeth sydd gan y Senedd dros faterion ariannol ond mae ganddyn nhw rai pwerau syml. Er enghraifft, cafodd trethi trafodiadau tir eu datganoli o dan Ddeddf Cymru 2014.

## Beth yw polisi a deddfwriaeth?

### Beth yw polisi?


Mae polisi yn gyfres o syniadau neu egwyddorion sydd â'r nod o lywio gweithrediadau er mwyn cyflawni amcan. Mae polisïau'r Llywodraeth neu bolisïau cyhoeddus yn disgrifio camau gweithredu neu amcan sydd wedi'i gynllunio gan y Llywodraeth ynghylch pwnc penodol. Mae dogfennau sy'n ymdrin â pholisïau Llywodraeth Cymru ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Senedd.

### Beth yw deddfwriaeth?

Mae deddfwriaeth yn gyfuniad o ddeddfau sy'n llywodraethu bywyd yng Nghymru. Caiff Cymru ei llywodraethu gan ddeddfau sydd wedi'u llunio yn Senedd y DU a'r Senedd. Fodd bynnag mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gwaith y Senedd yn unig. Mae deddfwriaeth Cymru ar ddwy ffurf: deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mae deddfwriaeth sylfaenol yn gyfuniad o Ddeddfau sydd wedi'u pasio gan y Senedd. Cyfraith ddrafft yw Bil, sy'n dod yn Ddeddf pan fydd wedi'i phasio gan y Senedd, yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ac yn dod yn orfodadwy. Gellir adnabod Deddf sydd wedi'i phasio yn y Senedd oherwydd bydd (Cymru) yn dilyn ei theitl, er enghraifft 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Gallai deddfwriaeth sylfaenol roddi grym i weinidogion y llywodraeth neu gyrff eraill i lunio is-ddeddfwriaeth, sydd yn aml ar ffurf offeryn statudol (SI). Yng Nghymru, caiff yr offerynnau statudol hyn eu cyflwyno gerbron y Senedd ac maen nhw'n destun gweithdrefn negyddol neu weithdrefn gadarnhaol. Caiff y weithdrefn negyddol ei defnyddio'n fwyaf cyffredin ac mae gofyn i'r Senedd ei gwrthwynebu os nad ydyn nhw'n awyddus iddi gael ei gyflwyno'n gyfraith. Os caiff y weithdrefn gadarnhaol ei gweithredu, mae'n rhaid i'r Senedd basio penderfyniad sy'n cymeradwyo drafft o'r offeryn statudol cyn iddo ddod i rym.

# Sut mae Bil yn dod yn Ddeddf?




[Source: Modified from Senedd diagram (https://senedd.wales/NAfW%20Documents/Assembly%20Business%20section%20documents/flowcharts-AssemblyScrutinyofPublicBills/flowchart-AssemblyScrutinyBills-en-print.pdf)]

# Pwy yw'r gweithredwyr allweddol?

## Llunio, datblygu neu ddiwygio polisïau

Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'u cynghorwyr, gweision sifil, Aelodau'r Senedd Cymru ac ASau.

### Y Senedd a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn ddau endid ar wahân gyda gwahanol rolau a chyfrifoldebau. Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif gan y Senedd, ac mae'r ddau yn atebol i bobl Cymru.

#### Senedd Cymru

Corff deddfu ar gyfer materion datganoledig.

Craffu ar waith a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Caiff y Senedd ei hethol gan y system Aelodau Ychwanegol. Mae ganddi 60 Aelod Senedd ar hyn o bryd, o'r holl bleidiau gwleidyddol, gyda phob dinesydd yng Nghymru yn cael ei gynrychioli gan bum Aelod Seneddol – un AS etholaethol a phump AS rhanbarthol.

Mae'n unsiambrog (hy. dim ond un siambr ddeddfwriaethol sydd ganddi).

Mae'r Llywydd yn cadeirio Cyfarfodydd Llawn y Senedd gyfan ac mae bob amser yn wleidyddol ddiduedd.

#### Llywodraeth Cymru

Formulates and implements policy on devolved matters.

Introduces most Bills (draft laws) to be considered by the Senedd.

Caiff y Prif Weinidog ei enwebu gan y Senedd a'i benodi gan EM y Brenin.

Mae o dan arweiniad y Prif Weinidog ac wedi'i ffurfio o Gabinet o 13 AS.

Mae Gweinidogion Cymru yn ASau sydd wedi'u penodi gan y Prif Weinidog o'r blaid wleidyddol sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn y Senedd i fod yn bennaeth ar adran o'r llywodraeth a gefnogir gan Ddirprwy Weinidogion Cymru. Mae'r Prif Weinidog hefyd yn penodi Cwnsler Cyffredinol.

### Newidiadau diweddar yn y Senedd

Ym mis Mehefin 2024, cafodd Deddf (Aelodau ac Etholiadau) Senedd Cymru 2024 ei phasio. Bydd y Ddeddf hon yn newid y nifer o ASau yn y Senedd, pa mor aml gân nhw eu hethol, a ffiniau etholaethau.

# Cynghori, Lobïo a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer polisïau

## Asiantaethau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus

- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a nhw yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar bynciau sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Yn wahanol i ardaloedd eraill yn y DU, sydd â mudiadau ar wahân sy'n gysylltiedig â'r llywodraeth i reoli gwahanol agweddau o'r amgylchedd (e.e. y Comisiwn Coedwigaeth, Forestry England, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd), caiff y rhain i gyd eu rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad, mae modd i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac arbenigedd ledled gwahanol adrannau.

- **Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru**
  Mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru yn adolygu cyngor gwyddonol, cyn ei gyflwyno gerbron y Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru. Maen nhw hefyd yn gweithio i ddatblygu gallu gwyddonol Cymru ac yn sicrhau caiff pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) eu hyrwyddo mewn polisïau cyhoeddus.

- **Pwyllgorau'r Senedd**
  Mae pwyllgorau'r Senedd syn craffu ar y llywodraeth, cyrff cyhoeddus cysylltiedig a ldeddfwriaeth. Yn ystod ymholiad pwyllgor, gallai fod yn canolbwyntio ar Fil neu unrhyw bwnc sydd wedi'i ddatganoli, byddan nhw'n casglu tystiolaeth gan arbenigwyr a mudiadau.

- **Ymchwil y Senedd**
  Mae Ymchwil y Senedd yn gorff ymchwil a gwybodaeth sy'n wleidyddol ddiduedd ac sy'n cynnig ymchwil diduedd i ASau, eu staff a Phwyllgorau'r Senedd. Nod eu hymatebion ymchwil ac ymholiadau yw cefnogi gwaith craffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau.

- **Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)**
  Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yw'r corff cyhoeddus sy'n cynghori Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ar gadwraeth natur ledled y DU ac yn rhyngwladol. JNCC yw'r fforwm a ddefnyddir gan gyrff cadwraeth natur gwledydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae JNCC yn cydlynu datganiadau ac adroddiadau ar y cyd gan y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol, megis y rheiny a ddosbarthir cyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) COP15. Ymhlith y rhain mae'r adroddiad Nature Positive 2030 a'r Datganiad ar y Cyd sef Nature Recovery for Our Survival, Prosperity and Wellbeing.



## Sefydliadau Ymchwil

- **Canolfan Ecoleg a Hydroleg (UKCEH)**
  Mae Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU yn sefydliad ymchwil annibynnol ac nid-er-elw. Maen nhw'n cydweithio gyda mudiadau amrywiol ac yn cynnig tystiolaeth i lywio penderfyniadau'r llywodraeth. Mae un o'u safleoedd ym Mangor, Cymru.

- **Ymchwil ym Mhrifysgolion Cymru**
  Mae prifysgolion Cymru yn cyflawni ymchwil sy'n diwallu anghenion polisi yn y wlad. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prifysgolion drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), fodd bynnag mae cynllun i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) a diddymu HEFCW yn 2024. Mae Llywodraeth Cymru'n pennu eu dyraniadau cyllid a blaenoriaethau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru pob blwyddyn drwy lythyr cylch gwaith, sy'n ymdrin ag addysgu yn ogystal ag ymchwil.

## Partneriaethau

- **Platfform yr Amgylchedd Cymru**
  Nod Platfform yr Amgylchedd Cymru (EPW) yw pontio'r bwlch rhwng gwneuthurwyr polisi ac ymchwil drwy gefnogi ymchwilwyr i ymgysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, datblygu prosiectau sy'n cyd-fynd ag anghenion tystiolaeth polisi Cymru ac ymgeisio am gyllid ar raddfa fawr.

- **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
  Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) yn dwyn gweithredwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd. Mae'n gyfuniad o grwpiau gwaith sy'n hyrwyddo ac yn monitro gweithrediadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a'r ecosystem yng Nghymru. At hyn, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cynnal y rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BEERN), sydd â'r nod o adnabod anghenion ymchwil sy'n ymwneud â pholisïau Cymru a blaenoriaethau cyflawni.

- **Cyswllt Amgylchedd Cymru**
  Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn rhwydwaith o fudiadau anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth sy'n gweithio ledled Cymru. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn hyrwyddo cydweithio rhwng ei aelodau ac yn eu cefnogi i ymwneud â gwaith datblygu polisïau a deddfwriaethau yng Nghymru.

- **Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru**
  Mae Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (CaSP Cymru) yn yr un modd yn dwyn ynghyd grwpiau a rhanddeiliad sy'n gweithio ar gydnerthedd ecosystemau morol.

# Sut gallwch chi ddylanwadu

## Ymgynghoriadau

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n rheolaidd ar feysydd polisi arfaethedig megis strategaeth ddrafft neu yn ystod camau cynnar cynllunio Bil cyn iddo gael ei lunio. Gallai unrhyw gyrff/unigolion sydd â diddordeb ymateb i ymgynghoriad. Caiff holl ymatebion i ymgynghoriadau eu dadansoddi a'u defnyddio yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Hwb Ymgynghoriadau ar-lein lle gallai unrhyw un fynd ati i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyfredol.

Mae'r Senedd a'i phwyllgorau hefyd yn cynnal ymgynghoriadau a galwadau am dystiolaeth yn rheolaidd. At hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn defnyddio ymgynghoriadau a galwadau am dystiolaeth i lywio'u gweithgareddau a'r gweithgareddau maen nhw'n eu rheoleiddio. Enghraifft ddiweddar o hyn yw Natur a Ni / Nature and Us – sef menter Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch dyfodol amgylchedd naturiol Cymru.

## Cysylltiadau a chydweithio

Gallai meithrin cysylltiadau gyda chysylltiadau allweddol drwy'r broses polisïau fod o fudd i ecolegwyr ac i'w hymchwil. Gallai'r cysylltiadau helpu llywio cwestiynau ymchwil, cyfeirio at gyllid ychwanegol, a chynyddu effaith canfyddiadau ymchwil.

# Deddfwriaeth Allweddol

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru i gyflawni eu gweithgareddau 'yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'. Caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy hwn ei ddiffinio fel 'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Ymysg yr anghenion presennol mae gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae gan y Ddeddf saith nod statudol yn hyn o beth. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus gwahanol yng Nghymru yn meddwl yn fwy creadigol am ffyrdd i greu Cymru gynaliadwy a dwyn i ystyriaeth canlyniadau unrhyw weithrediadau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae ganddyn nhw ddyletswydd gyfreithiol i gydweithio a sicrhau bod pobl ynghlwm â'u proses gwneud penderfyniadau, sicrhau ymagwedd integredig ac ataliol at heriau allweddol a meddwl gan ystyried yr hirdymor.




[Source: Welsh Government (https://www.gov.wales/well-being-of-future-generations-wales)]

Mae'r Ddeddf yn unigryw i Gymru ac mae wedi'i chanmol fel menter arloesol a blaengar gan ddenu sylw gan wledydd ledled y byd, ac amlygu Cymru fel arloeswr yn ôl ei hymagwedd ar ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y nodau hyn, cafodd dangosyddion cenedlaethol eu rhoi ar waith. Mae agweddau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ynghlwm â'r dangosyddion hyn (41-46):

41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.
42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.
43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru.
44. Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru.
45. Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan.
46. Elw cymdeithasol ar fuddsoddiad partneriaethau Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn fodd i'r Senedd gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio polisi Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n seiliedig ar yr egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR):

**Y nod yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion maen nhw'n eu darparu, ac wrth wneud hynny:**

> 'diwallu anghenion cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Mae'r ddeddf hon yn cynnwys dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 sef 'mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol', ynghyd ag Adran 7 sy'n rhestru cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwys i Gymru.

# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Caiff polisïau amaethyddol eu datganoli yng Nghymru yn ogystal ag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyn Brexit, roedd polisïau amaethyddol wedi'u cyflawni gan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, ond mae Lloegr a'r gwledydd datganoledig wedi, neu wrthi'n datblygu eu deddfwriaeth eu hunain.

Mae Brexit wedi darparu cyfle i wneud newidiadau i bolisïau amaethyddol yng Nghymru. Ers Brexit, bu Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy fyddai'n disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Aeth hyn rhagddi gydag ymgynghoriad yn 2018 o'r enw 'Brexit a'n tir: Diogelu Dyfodol Ffermio yng Nghymru' ac un yn 2019 o'r enw 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir'. Y bwriad oedd bwrw iddi gyda'r cyfnod pontio gwreiddiol o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2021, ond mae'r cyfnod pontio wedi'i ymestyn tan 2025 yn sgil cymhlethdod y gwaith.

Cafodd Papur Gwyn a oedd yn ymdrin â'r ymgynghoriadau hyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020. Roedd hwn yn amlinellu'r egwyddor o Reoli Tir yn Gynaliadwy y byddai polisi amaethyddol newydd yn seiliedig arno, a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fyddai'n mynd i'r afael â 'newid hinsawdd, iechyd cyhoeddus a materion amgylcheddol'. Bu i'r Llywodraeth gasglu ymatebion am ymgynghoriad ynghylch y papur gwyn hwn, gan gydweithio gyda ffermwyr hefyd mewn proses cyd-gynllunio drwy arolygon, cyfarfodydd un-i-un a gweithdai.

# Polisïau Allweddol

### Cymru'n cyhoeddi Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur

Llywodraeth Cymru yn datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019 – a wnaeth sbarduno llawer o lywodraethau eraill i gyflwyno eu datganiadau Argyfwng Hinsawdd eu hunain. Yna yn 2021, bu i Senedd Cymru ddatgan Argyfwng Natur yng Nghymru yn dilyn canfyddiadau'r Adroddiad Cyflwr Natur 2019.

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur (2015 ymlaen)

Bu i'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) gyflwyno egwyddorion a fyddai'n llywio polisi llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Cafodd strategaeth 2015 ei lunio i gyflwyno sut byddai Cymru'n cyflawni ymrwymiadau sydd wedi'u crybwyll yn Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, ymgorffori'r egwyddorion sydd ynghlwm â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a rhoi egwyddorion megis Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a gyflwynir yn y Cynllun Gweithredu, mewn grym.

Cafodd Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru 2020-2021 wedi'i diweddaru ei gyhoeddi a oedd yn ymdrin â themâu gweithredu, gan gynnwys agweddau megis cwblhau'r Rhwydwaith Safleoedd Morol Gwarchodedig a chyflawni cynllun gweithredu rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Mae darpariaeth i adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur fel rhan o ddeddfwriaeth sydd ar ddod am egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth o 2024 ymlaen.

## Coetiroedd i Gymru (2018)

Caiff polisi Cymru ar greu a rheoli coetiroedd ei grybwyll yn Coetiroedd i Gymru, ac mae'n cefnogi ymagwedd gynaliadwy Safon Coedwigaeth y DU (y mae pob un o lywodraethau'r pedair gwlad yn ei gymeradwyo). Dim ond 15% o Gymru sy'n goediog (conwydd neu frodorol, gan gynnwys coetiroedd hynafol) – ac mae'r polisi hwn yn nodi deilliannau allweddol mewn 50 mlynedd. Ymysg y rhain roedd cynyddu'r ardaloedd coediog, gan gynnal ecosystemau iach a chydnerth sydd wedi'u haddasu'n effeithiol i gyflawni buddion.

Yn dilyn y polisi hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn Cynllun Coedwig Genedlaethol i Gymru sy'n fodd i goedwigwyr a rheolwyr tir reoli eu coetiroedd yn gynaliadwy fel rhan o weledigaeth ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd.

## Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)

Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno strategaeth ar gyfer polisi Morol Cymru am yr 20 mlynedd nesaf i gyflawni nod o 'cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol'. Mae'r cynllun yn rhannol yn ymdrin â pholisïau cyffredinol, gan gynnwys un o'r enw 'Byw gan Gydymffurfio â Chyfyngiadau Amgylcheddol' sy'n ceisio cynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) o ran dyfroedd arfordirol a morol fel sydd wedi'i grybwyll yn Strategaeth Forol y DU. Mae gweddill y cynllun yn ymdrin â pholisïau sector sy'n ymdrin â gweithgareddau penodol megis pysgota, cynhyrchu ynni a dyframaethu. Mae yna hefyd Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 sydd â'r nod o gynnig arweiniad i awdurdodau sydd â rolau a chyfrifoldebau statudol i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru.

## Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

Cymru'r Dyfodol yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n amlygu'r angen i ddwyn i ystyriaeth yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol presennol y mae Cymru'n eu hwynebu. Mae'r fframwaith hwn yn ymdrin â strategaeth datblygu cynaliadwy sy'n gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Polisi a Chymdeithas Ecolegol Prydain

## Tîm Polisi Cymdeithas Ecolegol Prydain

Rydym yn cynnig cymorth i'n haelodau ac yn cyfuno'u gwybodaeth i hyrwyddo gwyddoniaeth ecolegol a datrysiadau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth i wneuthurwyr polisi. Rydym yn cynnig rhaglenni hyfforddiant a datblygu ar gyfer pob cam gyrfa ac yn cydweithio gydag aelodau ar sesiynau briffio ac ymatebion i ymgynghoriadau. Gwybod mwy a chymryd rhan.

## Grŵp Polisi Cymru – Cymdeithas Ecolegol Prydain (BES-WPG)

Rydym yn grŵp gwirfoddol o aelodau Cymdeithas Ecolegol Prydain a chydweithwyr sy'n gweithredu i sicrhau caiff polisïau a gwaith rheoli yng Nghymru eu llywio gan wybodaeth a dealltwriaeth ecolegol perthnasol. Rydym yn:

- Cynnig arbenigedd technegol a thystiolaeth ecolegol i wneuthurwyr polisi a rheolwyr ac yn cynghori ynghylch sut mae polisïau a rheoli yn effeithio ar ddeilliannau ecolegol
- Hwyluso perthynas gwaith agosach rhwng gwneuthurwyr polisi, ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol ecolegol
- Rhannu gwybodaeth ecolegol a'i berthnasedd ar gyfer polisïau a gwaith rheoli effeithiol â'r cyhoedd

## Sut mae Grŵp Polisi Cymru – Cymdeithas Ecolegol Prydain yn ymgysylltu gyda pholisïau?

Mae Grŵp Polisi Cymru – Cymdeithas Ecolegol Prydain yn ymgysylltu gyda pholisïau drwy ein digwyddiadau Caffi Ecoleg sy'n dwyn arbenigwyr a gwneuthurwyr polisi ynghyd i drafod pwnc penodol sy'n ymwneud â pholisïau. Rydym hefyd yn cynnal gwaith adweithiol megis ymateb i ymgynghoriadau perthnasol Llywodraeth Cymru. At hyn, rydym yn helpu ecolegwyr eraill i gymryd rhan drwy ein digwyddiadau hyfforddiant polisi, canllawiau polisi a gweithdai arbenigol.

Ewch i dudalennau polisi gwefan Cymdeithas Ecolegol Prydain i ddysgu mwy am ein gwaith cyfredol, bwrw golwg ar ein newyddlen a dysgu mwy am sut i fod ynghlwm â gwaith polisi yng Nghymru.

# **Ni yw Cymdeithas Ecolegol Prydain:** y gymdeithas ecolegol hynaf yn y byd.

Cawsom ein sefydlu ym 1913 a buom yn meithrin gwyddoniaeth ecoleg ers hynny. Mae gennym ni 7,000 o aelodau o bob cwr o'r byd ac rydym yn dwyn pobl ynghyd yn rhanbarthol, cenedlaethol ac yn fyd-eang er mwyn bwrw iddi i ddatblygu gwyddoniaeth ecolegol. Mae croeso i unrhyw un, yn unrhyw le, ymaelodi.

Ein nod yw sicrhau bod natur a phobl yn ffynnu mewn byd sydd wedi'i ysbrydoli gan ecoleg. Rydym yn dibynnu ar ymrwymiad cannoedd o wirfoddolwyr i'n cynorthwyo – o'r golygwyr sy'n gweithio ar ein dyddlyfrau, adolygwyr yn ein Coleg Adolygu Grantiau, y timau sydd ynghlwm â phob un o'n Grwpiau Diddordeb Arbennig, yr ymddiriedolwyr ac aelodau o'n Bwrdd Ymddiriedolwyr a phwyllgorau i'r rheiny sy'n cynnig help llaw yn ein Cyfarfod Blynyddol – byddai'n amhosibl inni gyflawni ein gwaith heb eu hymdrechion a'u hangerdd nhw.

Rydym wir yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth a'r ystod eang o safbwyntiau y mae pobl o wahanol gefndiroedd yn eu cyflwyno i'w gwaith, i ecoleg ac i'n Cymdeithas.

BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

British Ecological Society
42 Wharf Road
London N1 7GS
Tel: +44 (0)20 3994 8282
policy@britishecologicalsociety.org
www.britishecologicalsociety.org